# Seithfed cyfarfod y Grŵp Trawbleidiol ar yr Iaith Gymraeg
# Cofnodion 13 Mai 2014, 8.15yb

1. Cyflwyniad gan y Cadeirydd, Keith Davies AC

2. Ymddiheuriadau

3. Trafodaeth gyda Comisiynydd y Gymraeg

4. Cwestiynau o’r llawr

5. Cofnodion y cyfarfod diwethaf (18 Chwefror 2014)

6. Pynciau trafod y cyfarfodydd nesaf

7. Unrhyw fusnes arall

**Yn bresennol:**

Keith Davies AC

Aled Roberts AC

Suzy Davies AC

Simon Thomas AC

Comisiynydd y Gymraeg, Meri Huws

Gwyn Williams, Swyddfa CyG

Meinir Jones, Swyddfa CyG

Osian Llywelyn, Swyddfa CyG

Catrin Davies, AMSS Plaid Cymru

Ceri Owen, RhAG

Colin Nosworthy, Cymdeithas

Penri Williams, MDG

Elin Wyn, Dyfodol

Rebecca Williams, UCAC

Gill Griffiths, Merched y Wawr

**Ymddiheuriadau**

Dr Huw Thomas

Dai Williams

## Eitemau agenda pellach

**Eitem 3.** Trafodaeth gyda Comisiynydd y Gymraeg

Cafwyd diweddariad ar y Safonau gan y Comisiynydd. Cynhaliwyd Ymchwiliad i'r Safonau rhwng 27 Ionawr a 18 Ebrill. Pwrpas yr ymchwiliad oedd sefydlu'r hyn sy'n rhesymol ac yn gymesur i'w ddisgwyl o'r sefydliadau yn y Cylch cyntaf, sef Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a'r Parciau Cenedlaethol. Cafwyd ymateb gan bob un o'r cyrff yn ogystal â 410 o aelodau'r cyhoedd.

Swyddfa'r Comisiynydd yn edrych ar y dystiolaeth ddaeth i law er mwyn gwirio'n erbyn y Cynlluniau Iaith presennol i sefydlu beth oeddynt eisoes yn ei gyflawni a sicrhau nad oes unrhyw lithro am yn nôl. Mae bwriad cyflwyno adroddiad ar ddiwedd y mis fydd yn gosod barn y Comisiynydd o safbwynt yr hyn sy'n rhesymol i'w ddisgwyl o'r cyrff. Disgwylir y bydd yn cynnig rhai Safonau ychwanegol nad ydynt yn gynwysiedig yn nhogfen drafft y Llywodraeth. Mae disgwyl i'r broses ffurfiol ddechrau ar ei thaith drwy'r Cynulliad yn ystod mis Medi gyda thrafodaeth a phleidlais yn y Senedd yn ystod Hydref/Tachwedd.

Erbyn diwedd Tachwedd bydd disgwyl i'r set cyntaf o Safonau fod wedi mynd trwy'r broses fydd yn caniatáu i'r Comisiynydd anfon llythyr yn gosod allan y disgwyliadau statudol ar y cyrff erbyn y flwyddyn newydd yn 2015.

Nid yw'r 150 o gyrff / sefydliadau a restrir yng Nghylch 2 wedi derbyn llythyr rhag rybudd eto. Disgwylir i'r ymchwiliad ar gyfer y cylch hwnnw gychwyn yn ystod Medi 2014, cynhelir cyfres o sesiynau briffio yn ystod mis Mehefin gyda'r bwriad o gyflwyno adroddiad i'r Llywodraeth erbyn Mawrth 2015. Bydd Cylch 3 i ddechrau ym Mai 2015 gyda'r adroddiad yn barod erbyn Medi 2015. Yn dechnegol mae modd cynnal y 3 ymchwiliad cyn etholiadau nesaf y Cynulliad yn 2017.

Pwysleisiodd y Comisiynydd ei bod wedi bod yn broses gadarnahol ond mae'n angenrheidiol cael gwybod beth yw amserlen arfaethedig y Rheoliadau iddynt fod yn weithredol. Mae'r sefydliadau a'r cyhoedd angen gwybod hynny ac felly mae angen i'r Llywodraeth benderfynu ar fyrder.  Yn ychwanegol at hynny mae angen sicrwydd pryd bydd y Cylchoedd eraill yn cael lle ar lawr y siambr ac yn dod yn benodol gymwys i'r sefydliadau. Byddai'n creu sefyllfa anheg iddynt hwy ac i'r cyhoedd o safbwynt disgwyliadau fel arall. Mae angen penderfyniad o ran amserlennu gan y Llywodraeth. Fel arall bydd yn creu sefyllfa ble maent yn agored i her gyfreithiol.

Cylch 2: Cyrff cenedlaethol a chyrff San Steffan sydd eisoes gyda Chynlluniau Iaith. Blaenoriaethau fydd Cyllid a Thollau a Gwasanaeth Erlyn Goron sy'n gwasanaethu ac yn effeithio ar fywydau pawb yng Nghymru.

Cylch 3 – tynnu rhai cyrff sydd heb Gynllun iaith o gwbl ar hyn o bryd i mewn e.e elusennau a rhai cyrff trydydd sector. Yn edrych ar faes telathrebu ar hyn o bryd, ond heb eu nodi eto, mae'r Mesur yn nodi bod rhaid enwi'r cyrff i gyd yn unigol, fel sydd wedi'i wneud a chwmnïau bysiau.

Mae'r Byrddau Iechyd a Chyrff Addysg yn gweithio'n agos gydag ALl, ac felly mae angen sicrhau eu bod yn gweithio i'r un amserlen. Er bod y consortias rhanbarthol yn dosbarthu arian cyhoeddus nid ydynt yn endid cyfreithiol eto. Mae hynny'n codi llawer o gwestiynau am natur y cyrff hyn y tu hwnt i faes y Safonau.

Cyhoeddir adroddiad yr Ymchwiliad Iechyd yn y Pierhead ar 10 Mehefin fydd yn cynnwys argymhellion heriol i'r maes. Mwy i ddod am hynny cyn hir.

Pwysleisio eu bod wedi gorfod gweithio o fewn statud, ac felly bod y broses wedi'i gosod allan yn barod. Rhaid gofyn a oes ffyrdd o gryfhau'r broses honno? Y Comisiynydd yn croesawu sylwadau/awgrymiadau ar sut i wella a chryfhau'r broses ymgynghori ar gyfer y Cylchoedd nesaf.

**Eitem 4. Cwestiynau / trafod**

**Suzy Davies AC:** Ydy'r broses wedi bod yn heriol?

**Comisiynydd** yn cydnabod bod y broses wedi arwain at elfen o ddryswch i raddau, gan beri i rai ofyn y cwestiwn sylfaenol: ymchwiliad ar beth sydd fan hyn? Natur y safonau yn erbyn pa gyrff sy'n cael eu dylanwadu. Byddai wedi bod yn haws petae'r Safonau wedi'i cyhoeddi ar eu ffurf terfynol. Byddai'n croesawu mwy o sefydlogrwydd i'r Safonau y tro nesaf ac yn rhagweld hynny wrth gynnal ymgynghoriad Cylch 2 a 3.

**Colin Nosworthy** yn mynegi rhwystredigaeth cyffredinol a deimlwyd mewn perthynas â'r broses. Doedd neb yn fodlon esbonio'r ddogfen yn ystod yr ymchwiliad e.e sesiwn briffio a drefnwyd gan MDG. Dim dyddiad chwaith ar gyfer cynnal Cylchoedd 4 a 5 o'r Safonau. Beth am drydydd partïon, o ystyried bod traean o gyllid cyhoeddus Cymru yn cael ei wario yn y maes hwn?

**Comisiynydd** yn nodi nad oes modd cyhoeddi dyddiadau Cylch 4 a 5 eto gan y byddai'n creu tagfa yn y system. Unwaith eto roedd yn cydnabod bod dryswch wedi bod o safbwynt cyhoeddi'r Safonau drafft a chynnal yr ymchwiliad yr un pryd, ond roedd o'r farn bod y broses ei hun wedi gweithio, a'r ffaith bod nifer sylweddol o ymatebion yn brawf o hynny. Bydd sylw i drydydd partïon yn yr Adroddiad.

**Rebecca Williams** yn amlinellu mai un o'r prif rwystredigaeth a brofwyd yw na chafwyd ymgynghoriad ar y Safonau eu hunain. Beth sy'n digwydd i'r 410 o ymatebion gan y cyhoedd, a'r nifer sylweddol o ymatebion sydd yn ymwneud a'r Safonau eu hunain yn hytrach na'r drefn o berthnasu pa rai i ba sefydliad? Yn ei hanfod roedd yn broses yn ddryslyd ac yn anfoddhaol. Nodwyd nad yw'r DBS (yr hen CRB gynt) wedi eu henwi yn Cylch 2 na 3 – pam hynny?

**Comisiynydd:** Yn derbyn hynny, gan ddweud nad oedd dim yn eu rhwystro rhag ychwanegu'r DBS. Mae modd cryfhau'r rhestr ee. Y Comisiyndd eisoes wedi ychwanegu'r Heddlu. Cadarnhawyd bod yr ALlau yn cael eu trîn fel grŵp ac felly mai un adroddiad fydd yn cael ei gynhyrchu. Trafodaeth fewnol yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ynglŷn â sut i ddefnyddio ymateb y cyhoedd er mwyn ei rannu gyda'r Llywodraeth. Mae'n bosib iawn y byddant yn creu dogfen arall ar wahân er mwyn crynhoi hynny yn hytrach na'i wau trwy adroddiad yr Ymchwiliad.

Y bwriad yw y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi dogfen Safonau sy'n adlewyrchu set Cyfnod 1 er mwyn lleihau'r dryswch yn ystod cyfnod Cylch 2 a 3.

**Penri Williams** yn pwysleisio ei bod yn hollbwysig bod y cyhoedd ddeall y broses, ac felly bod y broses honno'n hygyrch a thryloyw. Mae hynny'n angenrheidiol o safbwynt disgwyliadau'r cyhoedd a sicrhau bod y Safonau yn eu ymbweru. Teimlad cyffredinol bod gormod o bwyslais ar

broses a symud i ffwrdd o'r gwasanaeth. Holwyd a yw ymatebion yr ALl wedi bod yn gadarnhaol e.e sylw yn y wasg i agwedd negyddol Cyngor Casnewydd

**Comisiynydd:** yn cydnabod bod lle i wella'r broses ym mhob agwedd. Ar y cyfan nodwyd bod yr ymatebion wedi bod yn ddigon cadarnhaol. Mae'r ffaith bod pob un wedi ymateb yn gadarnhaol yn ei hun. Y peth olaf rydym am ei weld yw gweithio o fewn dwy system, sef y Cynlluniau Iaith a'r Safonau.

**Simon Thomas AC** yn edrych ymlaen i ddarllen y ddau adroddiad (swyddogol ac answyddogol). Teimlo bod angen cael trafodaeth gyhoeddus er mwyn llywio'r drafodaeth. Bydd pwyllgorau'r Cynulliad hefyd yn awyddus i drafod, ac mae'n debyg o ddod gerbron dau bwyllgor, sef Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a'r Pwyllgor Cymunedau Lleol. Mae newidiadau yn siwr o ddigwydd eto felly mae cyfle o hyd i gyflwyno dadleuon a phwyso am welliannau.

**Eitem 5:** Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf a gyhoeddwyd ar wefan y Cynulliad

**Eitem 6:** Pynciau trafod y cyfarfodydd nesaf:

- Safonau Iaith yn sgil cyhoeddi adroddiad y Comisiynydd. Cytunwyd y byddai'n fuddiol trafod hyn yn y 'Steddfod ac o bosib eto yn yr Hydref.
- Adolygiad o'r Cwricwlwm
- Adroddiad Yr Athro Sioned Davies (Cymraeg Ail iaith)
- Strategaeth Iaith y Llywodraeth
- 

Cytunwyd y dylid ailedrych ar rhestr o bynciau sydd eisoes wedi'i nodi ond heb eu trafod hyd yma.

**Eitem 7:** UFA. Dim byd yn codi.